

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Nos Fawrth y 8ed o Chwefror 2011.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair) Harry Wyn Owen – Talysarn; Elwyn Jones-Griffith, Ifan Glyn Jones, Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Eurig Wyn Evans – Nebo; Hefina M W Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; OP Huws – Cynghorydd Sir; Peter Newton a Wyn Lane – Heddlu; Eiliw Davies – Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Gwr Gwadd – Wyn Lane Heddlu Gogledd Cymru. Gwahoddwyd i'r cyfarfod i drafod torriadau i'r gwasanaeth ac yn y blaen. Yn ogystal, caeth Peter Newton – 'Super Intendent of Operations' gyda Wyn Lane i'r cyfarfod. Dywedwyd bod yr orsaf newydd yn agor ym Mhenygroes ar y 21ain o Chwefror, ac y byddai yn cael ei defnyddio fel Safle Hyfforddi yn ogystal a gorsaf heddlu. Nid oeddynt yn ymwybodol o gwbl o unrhyw fygythiad i Penygroes golli y CBM na'r PCSO. Cafwyd cyfle i holi am lefel troseddau yn yr ardal hon, a dywedwyd ei bod yn ardal saff iawn. Dywedwyd hefyd bod ymgyrch ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar addysgu'r ifanc am drais. Holwyd am y problemau parcio sydd yn parhau ar Heol Buddug, ger y Co-op. Roedd Julie Holland wedi rhoi erthygl yn y papur newydd am y parcio, ond doedd hyn ddim i'w weld wedi gwneud unrhyw wahaniaeth. Dywedwyd hefyd bod nos Wener yn parhau i fod yn broblem gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae angen parhau gyda'r ymweliadau mae'r heddlu lleol yn ei wneud gyda'r clybiau ieuenctid yn y pentref. Byddwn yn gofyn i Peter Newton a Wyn Lane ddod draw i gyfarfod eto yn y dyfodol, cyn pen blwyddyn

Ceisiadau Am Arian 2010-2011. Penderfynwyd rhoi £50 yr un i'r canlynol – cyfanswm o £550:

- Ysgol Feithrin Penygroes
- Cyfeillion Cerdd Ieuenctid Gwynedd
- Cymdeithas Alzheimers
- Papur Bro Lleu
- Eryri Vaulters
- Treialon Cwn Defaid Llanllyfni
- Neuadd Goffa Llanllyfni
- Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni
- Dawns i Bawb
- Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle
- Neuadd Goffa Penygroes

Adroddiadau Pentrefi.

***Penygroes :** Derbyniwyd cwynion fod bylchau yn y wal yr ochr draw i gae rygbi'r ysgol, ac un ohonynt yn edrych yn beryglus iawn yr olwg. Hefyd roedd cwynion bod ysbwriel ar gae pel droed yr ysgol. Roedd cwynion fod y rhai sydd yn defnyddio'r cae pel droed y tu allan i oriau'r ysgol yn parcio ar Hen Lon, a gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r ysgol, i atgoffa'r rhai sydd yn gwneud, y dylent barcio eu ceir yn y Ganolfan Hamdden. Roedd cwynion hefyd am gerbydau yn cael eu parcio ar y glaswellt y tu draw i Bron Meirch – byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd sylw bod Ffordd Trem y Wyddfa, Mynediad Cae Catri, Bryn Llwyn i gyd angen sylw yn gyffredinol – byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Roedd pryder gan y Cynghorwyr y byddai'r broblem yn gwaethgu os na chaiff y gwaith atgyweirio ei wneud nawr.

***Llanllyfni:** Mae'r coed wedi tyfu yn fawr ac angen eu tocio ar y ffordd o Fron Haul i Nasareth (yr hen lon) – byddwn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd; Hefyd, clywson bod dwr yn colli ger y maes parcio ar Lon Ddwr.

Llwybrau a Mynwentydd.

Byddwn yn gyrru gair o ddiolch i'r gwasanaeth cymunedol am glirio'r mynwentydd. Casglwyd llond 37 o fagiâu du o chwyn.